

Ar ddydd Mawrth, 15fed Medi 2009 cynhaliwyd Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyncoch am 7.00 pm
PRESENNOL: Y Cyng. R Owen (Cadeirydd); Mrs E Davies; Mrs G Price; DR Morgan; D Jones; D Sheppard; Melvyn Evans; Mrs K Walker, Tegwyn Lewis a'r clerc

- 2570** Derbyniwyd **ymddiheuriadau am absenoldeb** oddi wrth y Cyng. M Hughes a Trefor Davies
- 2571** **Materion Personol:** Mynegodd y Cyngor eu cydymdeimlad â'r Cyng. Trefor Davies a'i deulu ar eu profedigaeth ddiweddar.
Penderfynwyd hefyd anfon llythyr o gydymdeimlad i'r cyn-gynghorydd Cymuned, Dilwyn Lewis ynghylch yr anafiadau a gafodd ei ferch yn ddiweddar
- 2572** **Datgan Buddiant Personol / Rhagfarnol:** Dim un
- 2573** **Cadarnhau Cofnodion:** PENDERFYNNWYD cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 28ain Gorffennaf 2009 fel cofnod cywir. Trafodwyd y materion canlynol oedd yn codi o'r Cofnodion:
Cofnod 2546 Tir Amwynder, Dôl Helyg, Penrhyncoch:
Ar gais yr Awdurdodau Cynllunio, neilltuwyd un llain yn Dôl Helyg fel safle amwynder yn ystod cyfnod cynllunio'r ystâd, ond ni osodwyd unrhyw amodau ar gyfer ei datblygu. Ers cwblhau'r ystad mae'r llain wag wedi gordyfu a chafwyd cwynion ynghylch ei chyflwr anniben. Y datblygwr sy'n berchen y llain o hyd ac ymddengys ei fod yn fodlon i'r llain gael ei gwyrddroi'n ardal gymunedol. Wrth drafod defnydd posib o'r safle, barn yr Aelodau oedd y dylai gynnal ei hun ac na ddylai fod angen gwariant rheolaidd gan y Cyngor.
Cynigiodd y Cyng. Kari Walker ein bod yn gofyn i Ceredigion a ellid troi'r safle'n lotments am fod nifer o'r gerddi ar yr ystad yn gymharol fach. PENDERFYNNWYD (i) dilyn trywydd y cynnig; (b) cydnabod y llythyr a dderbyniwyd heddiw gan un o drigolion yr ystad ynghylch y llain a (c) holi a ydy'r ystad wedi'i fabwysiadu gan Ceredigion.
Cofnod 2546 Cynllun Iaith Gymraeg: Dwedodd y Cyng. R Owen ei fod yn aros am wybodaeth bellach am y cynllun mwyaf priodol i'w fabwysiadu.
Cofnod 2557 - Newid y cyfeiriad post o Cwmsymlog i Penbontrhydybeddau: Mae'r ffurflenni cytundeb i'w harwyddo gan y trigolion a effeithir gan y newid arfaethedig wedi'u derbyn gan y Post Brenhinol. PENDERFYNNWYD y bydd y Cyng. Mrs Edwina Davies, Trefor Davies a'r clerc yn canfasio'r cartrefi dan sylw.
Cofnod 2569 Torri Gwair – Cwmerfyn: Cafwyd cydnabyddiaeth gan Ceredigion mewn ymateb i'r cais i dorri'r gwair ar hyd y cloddiau yng Nghwmerfyn, a chadarnhad gan drigolion Cwmerfyn bod y gwaith wedi'i gwblhau'n foddhaol.
Cofnod 2542 Parcio - Ystad Tan y Berth, Penrhyncoch: Mewn ymateb i'r cais am fwy o le parcio, mae Ceredigion yn awgrymu y dylid cysylltu â Tai Ceredigion ar ôl i'r stoc o dai gael ei drosglwyddo iddyn nhw ym mis Hydref.
Cofnod 2542: Cydnabyddiaeth gan Mr G Koppel o lythyr llongyfarch y Cyngor ar lwyddiant ei ffilm 'Sleep Furiously', sy'n seiliedig ar fywyd cymunedol Trefeurig.
- 2574** **Adroddiadau ar Gyfarfodydd a fynychwyd gan Aelodau'n cynrychioli'r Cyngor Cymuned**
Shelter Cymru: Gan adrodd ar Gyfarfod Gwybodaeth a fynychodd, rhoddodd y Cyng. Dafydd Sheppard fanylion am y cymorth sydd ar gael, a'r asiantaethau amrywiol sy'n cydweithio i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr i helpu pobl sy'n cael anawsterau gyda thai, arian, tlodi ac unigedd.
Airtricity - Fferm Wynt Nant y Moch: Gan adrodd ar Gyfarfod y Grŵp Cyswllt Cymunedol a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf, dwedodd y Cyng. Kari Walker fod yr aelodau'n gytûn, a bod dogfennau'r Cylch Gorchwyl wedi'u harwyddo gan Aelodau Gweithredol y Pwyllgor.
Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig: Mewn Cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Medi dwedodd Cadeirydd GDYT fod y brydles ar yr adeilad wedi'i hymestyn am 12 mis arall gyda'r opsiwn o gytuno i brydles tymor hir neu brynu'r eiddo am bris y farchnad. Mae'r opsiynau'n cael eu hystyried gan y Grŵp Datblygu mewn ymgynghoriad â defnyddwyr yr adeilad.

Derbyniwyd ac ystyriwyd yr ohebiaeth/dogfennau canlynol:

- 2575 Dogfen ymgynghorol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru** ynghylch y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol 2009 arfaethedig. PENDERFYNWYD cytuno y dylai Un Llais Cymru gynrychioli'n barn ni.
- 2576 Un Llais Cymru:**
Cynhadledd Flynyddol 10 Hydref 2009: Darllenwyd ac ystyriwyd y Cynigion i'w trafod yn y gynhadledd. Mae'r Cyng. Richard Owen, a enwebwyd i gynrychioli'r Cyngor yn y Gynhadledd, yn methu â'i mynychu. Cytunodd y Cyng. D R Morgan i gymryd ei le.
Grantiau Hyfforddi Cynghorwyr: Hysbysiad bod Grantiau ar gael i dalu cyfran o gostau'r Sesiynau Hyfforddi. PENDERFYNWYD ystyried gwneud cais am grant ar ôl penderfynu ar yr enwebiadau ar gyfer Sesiynau'r dyfodol
- 2577 CS Ceredigion: Rhybudd o Gyfarfod Ymgynghorol arfaethedig** i'w gynnal yn Aberystwyth ar Ddydd Mawrth 13 Hydref 2009. Cytunodd y Cyng. R Owen a K Walker i'w fynychu.
- 2578 Ceisiadau i annerch y Cyngor:** Mewn ymateb i geisiadau i annerch y Cyngor PENDERFYNWYD gwahodd 'Age Concern' i Gyfarfod mis Hydref; 'Airtricity' i Gyfarfod mis Tachwedd a 'Swyddog Galluogi Tai Gwledig Ceredigion' i gyfarfod mis Rhagfyr.
- 2579 Ceredigion - ynghylch Materion Prifffyrdd:** Ymateb amhendant i awgrym a wnaed gyntaf yn 2007 i newid y flaenoriaeth ger croesffordd IGER - PENDERFYNWYD ei dderbyn
- 2580 Panel Dyfarnu Cymru – Adroddiad Blynyddol 2008-09:** Y diweddaraf gan J Peter Davies, Llywydd y Panel ar waith y Panel. PENDERFYNWYD ei nodi.
- 2581 LICC – Adroddiad ar Gynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol 2008-09:** PENDERFYNWYD ei nodi.
- 2582 Cymorth Canser Macmillan:** Cais i godi arian. PENDERFYNWYD arddangos y posteri.
- 2583 Cynigion Ceredigion ar gyfer ysgolion Ardal yn Llandysul a Thregaron** a chopi o ymateb Cymdeithas yr Iaith. Yn dilyn trafodaeth, ym marn y Cyngor roedd hwn yn fater i'r cymunedau dan sylw. PENDERFYNWYD peidio ag anfon ymateb.
- 2584 Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Ardal Aberystwyth:** Ffurflen arolwg i asesu anghenion tai. PENDERFYNWYD arddangos y ffurflenni'n lleol.
- 2585 CS Ceredigion – Cynnig i anfon ceisiadau cynllunio ymlaen yn electronig:** PENDERFYNWYD gwrthod y cynnig ar hyn o bryd am nad oes gwasanaeth band eang boddhaol ar gael eto yn ardal y clerch.
- 2586 Coed Pinwydd mawr ar ystad Tan y berth:** Llythyr gan un o drigolion yr ystad ynghylch y conau/moch coed o'r coed pinwydd ar ffin ddwyreiniol yr ystad. PENDERFYNWYD cefnogi'r gŵyn i Gyngor Sir Ceredigion a chydabod llythyr yr achwynydd.
- 2587 Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru :** Gwahoddiad i Weithdai 2009 – PENDERFYNWYD ei nodi.

Materion Ariannol:

- 2588 Cyfrif Cymunedol HSBC 13.08.09** (taflen 299): **£10,516.01**
- 2589 Cae Chwarae Penbont:** £50 rhent blynyddol 2009/10 wedi'i dderbyn a'i gydnabod.
- 2590 Ffordd Banc y Darren - amcanbris ar gyfer ail-osod y slabiau pafin ger y sedd - £100:** PENDERFYNWYD ei dderbyn ac awdurdodi'r gwaith.
- 2591 Copi gan Un Llais Cymru o'r Gyfradd Milltiroedd bresennol sy'n daladwy i gynghorwyr a chlercod:** PENDERFYNWYD ei derbyn a'i mabwysiadu.

Ystyriwyd a chytunwyd i dalu'r canlynol:

- 2592 L Griffiths** - cyfieithu Gorff 2009 **£65.33** siec 934
- 2593 P Walker** – cyflog Gorff-Medi 2009 **£617.24** siec 935
- 2594 Really Welsh Trading Co** – Bylbiau Cennin Pedr - £17.38 + TAW £2.62:**£20** siec 936
- 2595 Cyng. K Walker** – Milltiroedd a hawliwyd ar gyfer cyfarfodydd ar 28/04/09; 15/07/09; 28/07/09 - cyfanswm 88 milltir @ 50.1c y/f + 40c tâl teithiwr: **£44.48** siec 937
- 2596 Bil BT hyd 13 Medi 2009:** Galwadau a thaliadau £92.39 + TAW £13.19: **£105.58** siec 938
- 2597 Nodwyd y penderfyniad i roi caniatâd i'r ceisiadau cynllunio canlynol**
A090167 Dolwen, Penrhyncoch – addasu mynediad i do cefn y garej
A090271 Y Gelli, P/coch, Addasiad i amod 3 ynghylch materion a gadwyd yn ôl Cais Rhif A041187
A090350 Tir ger Cwm Pennant, P/coch: codi annedd

- A090450** 2 Llwynprysg, P/coch: estyniad
- 2598** **Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol i'w ystyried:**
A090533LB Allt Fadog, Capel Madog – Ailosod ac atgyweirio yn dilyn difrod tân: Mewn ymateb, croesawodd y Cyngor y broses o adfer yr adeilad hanesyddol hwn mewn dull cydnaws yn dilyn difrod tân.
- 2599** **Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor am 7.00pm ar Ddydd Mawrth, 20 Hydref 2009 yn Hen Ysgol Trefeurig**
- 2600** **Cytunwyd i osod y canlynol ar yr agenda nesaf:**
Golau Rhybudd Ysgol i'r dwyrain o'r Bwthyn, Penrhyncoch ddim yn gweithio.

Daeth y Cyfarfod i ben am 9.25pm.

